ateb e2i

# #23 Gwaith wedi'i gontractio gan ateb

## (Rhag 2022)

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni....*

Cynhyrchiad **e2i**

ateb e2i

# #23 Gwaith wedi'i gontractio gan ateb

## Pam cynnal yr adolygiad hwn?

### Pwrpas y thema:

Cael mwy o fanylion ynghylch pam y mae ateb wedi cael adborth negyddol parhaus am ei wasanaeth gwaith wedi'i gontractio

### Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2022

### Diolch am eich cefnogaeth!


Cawsom wybodaeth gan **206** o'n cwsmeriaid

## Dyma ddywedoch chi. . .

### Dyma'r ymatebion a gafodd ein Tîm Cydlynu e2i:


**1/ A oes contractwr wedi ymweld â chi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (e.e. yn gosod ffenestri newydd, yn paentio eich cartref, NAD yw'n aelod o staff ateb.)** Os 'Nac oes', ewch i gwestiwn 9.

**Atebwyd gan: 205 Nid atebwyd gan: 1**




## 2/ A wnaeth ddangos unrhyw ddogfen adnabod?

Atebwyd gan: 162 Nid atebwyd gan: 44





## 3/ A wnaeth drefnu apwyntiad cyfleus?

Atebwyd gan: 161 Nid atebwyd gan: 45



## 4/ Ar raddfa o 10 – 100, beth oedd eich barn am ansawdd y gwaith?

Atebwyd gan: 160 Nid atebwyd gan: 46




## 5/ Os hoffech chi, gallwch ychwanegu rhagor o fanylion at eich ateb yma:

### Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym

Atebwyd gan: 101 Nid atebwyd gan: 105

"Roedd trydanwyr Morley yn fwy na pharod i helpu ac roeddent yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn daclus... roedd y peintwyr allanol yn wych, yn gwrtais ac yn daclus iawn."

"Fe ddaeth pan oedd yn rhaid i fi fynd i'r ysgol a chasglu fy mab gyda fy mabi newydd-anedig. Felly, gwnaeth aildrefnu amser pan fyddwn i gartref. Roedd yn neis iawn ac yn siarad â'r plant."

"Roedd y peintwyr gyda ni yn peintio'r tŷ. Y tro cyntaf i ni glywed bod y tŷ'n cael ei beintio oedd pan wnaethant gnocio ar y drws i ofyn pa liw y byddem yn hoffi ei gael. Roeddwn i'n meddwl y byddai ateb wedi rhoi gwybod i ni'n gyntaf."

"Roeddwn i wedi trefnu bod gorchudd yn cael ei roi ar lawr y toiled i lawr y grisiau, ond ni chyrhaeddodd neb unwaith eto i wneud y gwaith."

"Daeth peirianwyr i osod clychau drysau, system intercom a larymau tân newydd. Roedd Covid arnynt, a chyn pen wythnos roedd wyth o'r preswylwyr wedi'i gael hefyd. Nid yw'r gwaith wedi'i orffen o hyd – does gyda ni ddim clychau drysau, system intercom na larymau tân newydd."

"Roedd y dynion a gododd y ffens yn wych. Roedden ni'n teimlo yn gysurus iawn pan oeddent yn ein gardd. Roeddent yn gwrtais iawn ac yn barod iawn i helpu."

"Ni wnaethant lanhau wedyn na chlirio'r sbwriel tan sawl mis yn ddiweddarach. Mae'r cafnau yn dal i ollwng dŵr fel rhaeadr pan fydd hi'n bwrw glaw."

"Roeddwn i'n gwerthfawrogi'r ffaith bod y tŷ'n cael ei beintio ond gwnaethant ddweud nad ydynt yn peintio siliau ffenestri."

"Yn anffodus, mae'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf o gontractwyr agwedd ddi-hid pan fo angen ymdrin â phroblemau... yn eiddo ateb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd pryd bynnag y maent yn dymuno, hyd yn oed os oes ganddynt apwyntiad. Mae ansawdd y gwaith yn debyg i waith plentyn ysgol... rwy'n gweld llawer o gwsmeriaid ateb nad ydynt am ypsetio neb, neu nad ydynt yn gwybod pwy y dylent ffonio, pan fydd gwaith wedi'i wneud yn wael. Dylai POB UN o gwsmeriaid ateb gael ffurflen adrodd, y mae'r contractwr yn rhoi enw ei gwmni a'i staff arni, yn ogystal â rhif y gwaith. Fel hynny, gall y cwsmer roi sylwadau gonest am y gwaith ar y ffurflen..."

"Cyrhaeddodd erbyn yr amser a nododd, gwnaeth y gwaith, a gadawodd bopeth yn lân ac yn daclus."

"Gwasanaeth ffensio David Evans, staff hyfryd, gwaith gwych."

"Wrth dwtio'r gwaith peintio gwnaethant ddefnyddio lliw gwahanol, sy'n golygu bod darnau mawr o baent o wahanol liw ar hyd gwaelod a thop y cyntedd – maent mor amlwg. Alla i ddim deall sut y cafodd hynny ei ganiatáu. ... Eu hesgus oedd nad oeddent yn gallu cael gafael ar god y paent er mwyn cael y lliw iawn. Aethant drwy'r rhan fwyaf o fy nghartref yn rhoi'r paent dros amryw graciau a marciau. Roedd gwneud rhywbeth fel hynny'n dangos diffyg parch llwyr."

"Yn gwrtais, yn barod i helpu ac yn effeithlon."

"Gwaith da, a gwnaethant glirio wedyn."

"Roeddwn i'n arfer gweithio i Ddur Prydain. Gwnaethant gyflwyno pacwyr dan gontract ar draws y diwydiant. Gwnaethom golli'r swyddi pacio, a arweiniodd at ddileu swyddi. Collwyd miloedd o swyddi. Er bod angen rhywfaint o waith dan gontract, dylai fod yna gyfaddawd teg. Pryd bynnag y bo modd, dylech gadw cymaint ag sy'n bosibl o'ch gweithwyr eich hun. Mae cost yn ffactor pwysig, wrth gwrs, ond mae'r gymuned yn ffactor pwysig hefyd."

"Galwodd contractwr i osod ffens newydd yn gynharach eleni. Rwy'n dal i ddisgwyl i'r gwaith gael ei wneud."

"Ni chafodd y gwaith ei gwblhau o fewn yr amserlen a drefnwyd. Ni chafodd apwyntiadau wedyn eu cadw; roeddent yn galw fel y mynnent, a oedd yn broblem fawr, a finnau'n ceisio gweithio'n llawn-amser ac wedi trefnu cymryd gwyliau ar gyfer yr adeg a gytunwyd yn flaenorol. Roedd ansawdd y gwaith yn wael, ac roedd y deunyddiau fel pe baent yn ddeunyddiau rhad a ddefnyddiwyd yn ddarbodus iawn ac na fyddant yn para. Nid yw ateb fel pe bai'n malio bod y tenantiaid yn dal i deimlo'n anfodlon â'r gwaith, ac nid yw byth yn ymweld ag eiddo i wirio ansawdd gorffenedig gwaith contractwyr. Rwy'n siomedig tu hwnt fy mod yn cael fy nhrin fel dinesydd eilradd, a bod contractwyr yn gwybod y gallant wneud gwaith o ansawdd gwael oherwydd nad oes gan ateb fesurau rheoli ansawdd ar waith i archwilio gwaith contractwyr yn ystod y broses ac archwilio'r gwaith gorffenedig yr ydym ni'n gorfod byw gydag ef."

"Roedd WBG yn grêt. Fe wnes i gwrdd â phedwar person gwahanol, ac roeddent i gyd yn hyfryd ac yn hynod o barod i helpu, yn enwedig 'Chris' a 'Nathan'. Mae gen i broblemau iechyd meddwl difrifol, ac roeddwn yn teimlo'n gysurus ac wedi ymlacio tra oeddent yma'n gwneud y gwaith atgyweirio."

"Roedd e'n gwrtais iawn, wnaeth e' ddim gadael llanast, ac fe wnaeth waith da iawn wrth osod llawr fy ystafell ymolchi!"

## 6/ Ar ba stryd neu ystâd yr ydych yn byw?

Dyma rai o'r ardaloedd lle mae ein hymatebwyr yn byw:

Atebwyd gan: 157 Nid atebwyd gan: 49

Ashford Park
Parc Maen Hir
Havard Close
Westaway Park
Church Close
De Clare Court
Green Meadow Avenue
Three Meadows
Silverstream Drive
Ashdale Lane, Penfro St
Davids Close, Hubberston
Park Avenue, Cilgeti

Freemans View
Harcourt close
Laugharne Close
Poyers Grove
Springfield Avenue
Hanover Court,
Aberdaugleddau John
Morgan Close, Arberth
Vineyard Vale, Saundersfoot
Gordon Parry Road, Neyland
Bush Street
Plas Peregrine
Vaynor Road,
Aberdaugleddau

Cuckoo Wood
Spring View
Hafalnod
Town Meadow, Marloes
Redstone Court, Arberth
Ocean Drive, Y Garn
Doc Penfro
Sunnybank Gardens
Hawkstone Road
Vetch Close
Erw Lon, Penycwm

Rose Avenue
Swn y Mor
Howarth Close
Gordon Parry Rd
Central Court,
Aberdaugleddau
Deer Park view
Parc Derwen, Abergwaun
St Clements Park
Mayfield Road

Fir Tree Close
Greville Court
Honeyhill Grove
Knight Court
Three Meadows
Preseli Court
St David's Close
Hanover Court
Vaynor Road, Aberdaugleddau
Woodland Close
Dingle Close, Crundale Rocky
Park
Ael y Felin, Penparc
Cefn Gallod
Harrier Road

Laugharne Close
Old School Court
Cuckoo Wood
Church Close
Gordon Parry Road, Neyland
Station Road, Treletert
Priory Road
Sunderland Avenue
Rose Avenue
Woodland Close
Bush Street
Maes yr Ysgol
Peregrine Close, Hwlffordd

Barn Court
Roch Road
Croft Court, Penfro
Princess Royal Way
Brooklyn's Close
Cutty Sark Drive
Vaynor Road
Newell Hill
Stryd Shearwater
Williams Court

Freemans View, Hwlffordd
School Lane
Bro Waldo, Clunderwen
Springfield Avenue
Hafalnod, Dinbych-y-pysgod
Croft Court, Penfro
Acorn Drive
Acorn Heights, Dinbych-y-
pysgod

Munro Court
St Clements Park
Shoemakers Court

Williams Court
St Marks Close
Wentworth Close
Albion Court, Wellington Street
Barn Court
Howarth Close
Redstone Court, Arberth
Britannia Drive, Doc Penfro
Central Court
Powell Close
St James Street
Stratford Road
Fairways
Maes-y-Mor, Solfach

## 7/ Pa waith a gafodd ei gyflawni?

Dyma ychydig o'r manylion a gasglwyd gennym...

**Atebwyd gan: 156** **Nid atebwyd gan: 50**

"Peintio dros lwydni, tynnu bricsen y tu allan"

"Gwydr wedi'i ffitio yn ein drws ffrynt"

"Gwaith cywiro ar ôl i olew ollwng"
"Slabiau newydd wedi'u gosod yn yr ardd"

"Gosod cegin newydd"

"Archwiliad asbestos"

"Atgyweirio ffenestri"

"Archwilio tanc dŵr"

"Erial teledu wedi torri oherwydd gwynt cryf"

"Gwaith wedi'i gyflawni ar eiddo newydd ar ôl blwyddyn yn unig, craciau a marciau lle'r oedd y plastr wedi dod yn rhydd; hoelion ac ymylon"

"Drws ffrynt trydan"

"Wedi mesur ar gyfer ystafell ymolchi newydd"

"Plymio ar gyfer system wresogi newydd"

"Codi glaswellt wedi gwywo a gosod cerrig yn ei le"

"Rhoi gwasanaeth i fy lifft risiau"

"Blwch ffiwsiau newydd ar gyfer y mesurydd trydan"


"Golau cyffredin y tu allan"

"Larymau"


"Nenfwd newydd i'r ystafell ymolchi oherwydd lleithder/llwydni, pob nenfwd i fyny'r grisiau wedi cael eu hailbeintio. Deunydd inswleiddio newydd wedi'i osod yn yr atig"

## 8/ A yw'n iawn i ateb gysylltu â chi i holi mwy am eich sylwadau?

Atebwyd gan: 160 Nid atebwyd gan: 46





## 9/ Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r cyfleoedd a gewch i gymryd rhan ym mhrosesau ateb ar gyfer gwneud penderfyniadau?



**10/ Er mwyn ein helpu i ddeall a yw ein digwyddiadau'n gynhwysol, allwch chi gadarnhau a ydych yn ystyried eich bod yn anabl neu beidio? (Efallai y bydd yn ofynnol i ateb rannu'r data hwn â Llywodraeth Cymru yn rhan o'i safonau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Drwy nodi eich ethnigrwydd yma, rydych yn cytuno i roi caniatâd i ateb rannu'r data hwn â Llywodraeth Cymru.)**

Atebwyd gan: 201 Nid atebwyd gan: 5



# Dyma wnaethom ni...

## Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Ailddatgan ac hyrwyddo cyfrifoldebau Cod Ymddygiad ateb i Gontractwyr
2. Ystyried dychwelyd i ddefnyddio arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid, a anfonir wrth gydnabod gwaith atgyweirio
3. Gwella cyfarfodydd rheolaidd ynghylch contractau gan ddefnyddio templedi ar gyfer cyfarfodydd a chadw cofnodion
4. Amserlen ar gyfer cyfarfodydd ynghylch contractau: mae gweithgor wrthi'n ystyried gwelliannau, dan arweiniad Ceri Morgan and Dan Teale (mae Allyn Prichard yn cynrychioli'r Tîm Eiddo)
5. Angen ystyried gwelliannau o ran y broses o asesu bodlonrwydd cwsmeriaid / yn dilyn gwaith arolygu
6. Adolygu'r ymgynghoriad â chwsmeriaid ynghylch gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio, gyda'r Tîm Cwsmeriaid

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n **Grŵp Cynllunio Arolygon** sydd i fod i gwrdd ar **12/09/23, 10:00yb.** Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

---

**Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn**

*Angen gwybod mwy neu godi mater?*

Anfonwch neges ebost atom:
**engage@atebgroup.co.uk**
Ewch i'n gwefan: **www.atebgroup.co.uk**
Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom:
**07500 446611**